# Grŵp Trawsbleidiol ar Hosbisau a Gofal Lliniarol

23 Tachwedd 2018, Hosbis Tŷ'r Eos, Wrecsam

Cofnodion

## Yn bresennol

| | |
|---|---|
| Mark Isherwood AC (Cadeirydd) | |

| | |
|---|---|
| Liz Andrews, Hosbis y Ddinas | Paul Harding, Marie Curie |
| Maria Bell, Cyngor Sir Ddinbych, yn cynrychioli Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru | Iain Mitchell, Hosbis Sant Cyndeyrn |
| Dawn Cooper, Macmillan | Steve Parry, Hosbis Tŷ'r Eos |
| Catrin Edwards, Hospice UK (Ysgrifenyddiaeth) | Mary Wimbury, Fforwm Gofal Cymru |
| Eluned Griffiths, Hosbis Tŷ'r Eos | Kevin Thomas, Cymdeithas Clefyd Niwronau Motor |
| Elin Gwyn, y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol | |

## Ymddiheuriadau

| | |
|---|---|
| Rhun ap Iorwerth AC | Lesley Griffiths AC |
| Helen Mary Jones AC | Llyr Gruffydd AC |
| Mandy Jones AC | Y Cyng. Gareth Roberts, BPRh Gogledd Cymru |
| Y Cyng. Rob Jones, BPRh Bae'r Gorllewin | Kelly Gillings, BPRh Bae'r Gorllewin |
| Wyn Parry, BPRh Powys | Grant Usmar, Hosbis y Cymoedd |
| Helen Davies, Bracken Trust | Andy Goldsmith, Tŷ Gobaith |
| Trystan Pritchard, Hosbis Dewi Sant | Jon Antoniazzi, Macmillan |
| Greg Pycroft, Macmillan | |

## Croeso

Diolch i Hosbis Tŷ'r Eos am gynnal y Grŵp Trawsbleidiol ac am ddarparu cinio a lluniaeth.

## Cofnodion y cyfarfod diwethaf

Cadarnhawyd y cofnodion.

Materion yn codi:

- Llythyr gan y Grŵp Trawsbleidiol at Ysgrifennydd y Cabinet yn dilyn y cyfarfod blaenorol.

## Gofal lliniarol mewn cartrefi gofal: heriau a chyfleoedd i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol

Cyflwynodd Catrin Edwards y pwnc yng nghyd-destun Argymhelliad 5 o Ymchwiliad y Grŵp Trawsbleidiol: Dylai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ddefnyddio cyllidebau cyfun i gefnogi'r gwaith o ddarparu gofal lliniarol mewn cartrefi gofal.

Rhoddodd Mary Wimbury gyflwyniad ar ran Fforwm Gofal Cymru (mae MW yn cynrychioli FfGC ar Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru ac mae gan FfGC gynrychiolaeth ar bob BPRh arall).

- 23,000 o welyau cartrefi gofal ledled Cymru
- Mae Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) yn cael gwared â'r gwahaniaethu rhwng cartrefi nyrsio a chartrefi preswyl. Mae pob 'cartref gofal' yn cofrestru gyda datganiad o ddiben (a allai gynnwys darparu gofal lliniarol), y byddai'n cael ei archwilio yn ei erbyn.
- Mae rhai pobl yn byw am gyfnod hir mewn cartref gofal—mae'n dod yn gartref iddynt. Mae eraill yn mynd i gartref gofal ar gyfer misoedd olaf bywyd.
- Nid oes darlun clir o berfformiad o ran darparu gofal lliniarol mewn cartref gofal ledled Cymru—mae'n ymddangos yn anghyson. Mae angen inni fapio pa gynlluniau sy'n mynd rhagddynt a sut y cânt eu hariannu.
- Mae angen mwy o gymorth a chefnogaeth ar gartrefi gofal gan y rhwydwaith iechyd a gofal ehangach, gan gynnwys hyfforddiant gan ysbytai a hosbisau, meddygon teulu a nyrsys ardal, a mynediad at fferyllfa.
- Megis dechrau mae'r broses o weithredu cronfeydd cyfun ar gyfer cartrefi gofal. Byddai'n ddefnyddiol edrych ar sut y caiff arian ei ddyrannu.

Nododd y Grŵp yr ymatebion ysgrifenedig gan Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru a Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Bae'r Gorllewin.

Darparodd Maria Bell gipolwg ar ddatblygiadau gan Bartneriaeth Ranbarthol Gogledd Cymru fel rhan o'i rôl gyda Chyngor Sir Ddinbych.

- Edrych ar gynllun peilot i gefnogi gwasanaeth cofleidiol y Tîm Adnoddau Cymunedol ar gyfer cartrefi gofal a sut y byddai TAC effeithiol ar gyfer cartrefi gofal yn edrych.
- Gweithgor ar ofal heb ei drefnu.
- Mae 1000 o Fywydau yn ystyried cartrefi gofal. Efallai y bydd lle i ystyried gofal lliniarol fel rhan o hyn.

- Efallai nad cyllidebau cyfun yw'r unig ffordd ar gyfer ystyried gwell fynediad at ofal lliniarol mewn cartrefi gofal. Byddai gofynion comisiynu yn ffordd arall. Dylid ystyried gofal lliniarol hefyd mewn cyllidebau ar gyfer offer a dysgu a datblygu.

## Cam Gweithredu: y Grŵp Trawsbleidiol i fonitro cynnwys gofal lliniarol a chyfeiriad ato mewn cynlluniau ac adroddiadau BPRh, gan gynnwys mewn perthynas â chartrefi gofal, comisiynu a chyllidebau cyfun, ac ailymweld â'r mater yn y flwyddyn i ddod.

Cododd John Mitchell y mater fod gan bobl mewn cartrefi gofal yr un hawl i gael mynediad at dimau cymunedol a gwasanaethau hosbis yn y cartref â phobl sy'n byw yn eu cartrefi eu hunain.

- Mae hosbisau yng ngogledd Cymru wedi cynnig, i'r bwrdd iechyd, cynorthwyo cartrefi gofal sy'n cael trafferth cadw trigolion allan o'r ysbyty, drwy hyrwyddo'r llinell gyngor 24/7 arbenigol.
- Ychydig iawn o randdeiliaid oedd yn ymwybodol o'r llinell gyngor 24/7 a gynigir gan hosbisau. Gellid gwneud gwell defnydd o hyn gan gartrefi gofal a gweithwyr proffesiynol eraill er mwyn cynorthwyo pobl, yn enwedig yn ystod cyfnodau y tu allan i oriau arferol.

## Cam Gweithredu: Cyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol ar 19 Chwefror 2019 ar ofal y tu allan oriau arferol i ystyried rôl y llinell gyngor 24/7 arbenigol ar ofal lliniarol.

## Cam Gweithredu: Y Grŵp Trawsbleidiol i gynnal arolwg o hosbisau i fesur y defnydd o'r llinell gyngor 24/7, gan gynnwys cartrefi gofal.

Trafododd Mark Isherwood y berthynas rhwng cyllidebau cyfun a chyllidebau personol.

- Nid yw Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn caniatáu cyfuno cyllidebau ar lefel bersonol.
- Yng ngogledd Cymru, rhaid i bob darparwr gofal cartref ddangos sut maen nhw'n sicrhau bod eu gwasanaethau yn canolbwyntio ar y person.
- Gallai model sy'n debyg i Daliadau Uniongyrchol mewn cartrefi gofal gynorthwyo sefydliadau i weithio ar y cyd er budd y person.

Nododd Mary Wimbury y dylai newid diwylliant tuag at gyd-gynhyrchu rhwng asiantaethau—statudol, annibynnol a'r trydydd sector—a phobl hefyd gynnwys teuluoedd a gofalwyr.

- Gall hyn gynnwys addysg ar gyfer gofalwyr ar rolau gofalu a chymorth sydd ar gael yn y gymuned ehangach.
- Dylai timau amlddisgyblaethol gynnwys pawb sy'n gysylltiedig â gofal y person, gan gynnwys cartrefi gofal a gofalwyr.

Nododd Steve Parry ddibyniaeth hosbisau (a'r system iechyd ehangach) ar brydlondeb pecynnau gofal cymdeithasol er mwyn rhyddhau pobl o'r hosbis i'w cartrefi eu hunain.

- Mae telefeddygaeth, gan gynnwys y llinell gyngor arbenigol 24/7, yn un ateb i hyn.

## UFA

Cyfeiriodd Mark Isherwood at y prinder diweddar mewn staff gofal lliniarol yn Ysbyty Wrecsam Maelor, a arweiniodd at ostyngiad mewn gofal yn yr ysbyty yn ystod cyfnodau y tu allan i oriau.

- Nododd Steve Parry fod Hosbis Tŷ'r Eos, sy'n gwasanaethu'r ardal, yn barod ac wedi paratoi ar gyfer y prinder hwn a bod yr hosbis yn gweithio gyda'r GIG i sicrhau bod gwasanaeth ar gael yn ystod y cyfnod hwn. Fodd bynnag, roedd sylw'r stori yn y cyfryngau wedi arwain at bryder diangen ymysg cleifion a theuluoedd.
- Nododd Mark Isherwood y gellid defnyddio'r Grŵp Trawsbleidiol yn y dyfodol i gyhoeddi datganiad ffeithiol ymlaen llaw er mwyn rhoi sicrwydd i'r cyhoedd.

Gwahoddwyd y Grŵp Trawsbleidiol i rannu tystiolaeth o'i ymchwiliad gyda'r pwyllgor iechyd ar 13 Rhagfyr 2018.